


Helpu plant i ddarllen



Llawlyfr Rhieni

Ysgol Bro Plenydd

**Syniadau i helpu eich plentyn
ddarllen a mwynhau llyfrau**

Dechrau Darllen, Dechrau Da!

- Mae'r llyfryn hwn yn llawn syniadau i helpu eich plentyn i ddarllen a mwynhau llyfrau.
- I rai plant, bydd dysgu darllen yn digwydd yn hawdd ac yn sydyn, i eraill bydd angen mwy o amser a chefnogaeth. Pa un bynnag, bydd eich help yn ddylanwad cryf ar ddatblygiad eich plentyn fel darllenydd. Canmoliaeth, anogaeth, sicrwydd a phleser yw'r ffactorau pwysig i bob plentyn wrth iddyn nhw ddatblygu'n ddarllenwyr hyderus.



*"The more that you read, the more things you will know.
The more that you learn, the more places you'll go."*

Dr Seuss

Annog eich plant i ddarllen

Dangoswch i blant fod darllen yn ran
o fywyd bob dydd!

Anogwch eich plentyn drwy roi digon
o gefnogaeth a chanmoliaeth!

Darllenwch rywbryd ac yn rhywle!

Mae lluniau yn rhan allweddol
mewn stori!

Eisteddwch gyda'ch gilydd lle mae
pawb yn gyfforddus!

Gellir darllen amrywiaeth o ddeunydd!

Darllen gyda'ch gilydd

Mae plant sydd yn darllen gartref gyda'u rhieni yn gwneud yn well yn yr Ysgol. Felly, gall rhieni chwarae rhan bwysig iawn yn natblygiad eu plant drwy eu hannog i ddarllen a meithrin hoffter o lyfrau.

Gallwch wneud hyn drwy ddarllen gyda'ch plentyn bob diwrnod a'i wneud yn brofiad pleserus.

Os yw eich plentyn yn ifanc (rhwng 2—4 oed) gallwch ei annog i sylwi ar eiriau a rhifau, yn hytrach na'i dysgu i ddarllen.

Siarad a datblygu iaith y plentyn yw'r allwedd i ddysgu darllen.



Camau Cyntaf Darllen

Dysgwch eich plentyn i:

- Adnabod llythrennau unigol fel synau a symbolau graffig.
- Adnabod swm/sain llythyren cyntaf gair ee. 'b' am bwced.
- Adeiladu geiriau unsill fesul llythyren e.e. car c-a-r
- Adnabod geiriau cyfan, sef y rhai 'gweledol' neu 'allweddol' sy'n rhoi ffurf i frawddeg e.e. mae, yn, y, rydw, chwarae.
- Gyfuno synau llythrennau i greu geiriau e.e 'ffr' yn 'ffrind' neu ar ganol geiriau fel 'aw' yn 'mawr'.
- Darllen geiriau hir neu anodd drwy eu torri i fyny a'u darllen fesul sill, e.e. teg-an-au.
- I ddilyn y stori a dal y llyfr yn gywir.

Helpu plant 3 - 5 oed gyda'u darllen

- Nid faint o eiriau mae eich plentyn yn eu deall sydd yn bwysig!
Mwynhau'r darllen gyda'ch gilydd sy'n bwysig!
- Dylai eich plentyn afael mewn llyfr yn y ffordd gywir a mwynhau'r lluniau.
- Mae clywed llawer o straeon a hwiangerddi yn help mawr hefyd.
- Cyd-ddarllenwch yn ddyddiol er mwyn annog eich plentyn i ddarllen yn uchel.
- Edrychwch ar y lluniau a thrafodwch beth sy'n tynnu sylw eich plentyn. Bydd hyn yn ei helpu i ddeall y stori ac i ddyfalu geiriau newydd.
- Symudwch eich bys o dan y geiriau er mwyn i'r plentyn weld a chlywed geiriau gyda'i gilydd.
- Peidiwch a thynnu gormod o sylw os yw eich plentyn yn gwneud camgymeriad. Anogwch eich plentyn i feddwl beth allai fod yn ei ddweud. Tynnwch sylw at y sain ar ddechrau gair.
- Mae chwarae gemau fel 'Rydw i'n gweld efo fy llygaid bach i...' a chwilio am eiriau ar labeli neu arwyddion, yn y stryd neu yn y siop, yn hybu'r dalen hefyd.
- Ewch i ddewis llyfrau gyda'ch gilydd yn y llyfrgell. Gallwch fenthyca rhain am ddim.

Helpu plant 5 - 8 oed gyda'u darllen

- Mae'n bwysig i chi barhau i ddarllen gyda'ch gilydd - bob dydd os oes modd.
- Erbyn 5 - 8 oed, mae gan blant chwaeth bersonol mewn llyfrau, felly mae angen rhoi'r cyfle iddyn nhw ddewis pa storïau i'w darllen.
- Gallwch drafod agweddau penodol o'r stori, megis yr agoriad, y diwedd glo, a'r iaith a ddefnodd.
- Trafodwch agweddau cryf a gwan y stori.
- Darllenwch yn uchel gyda'ch gilydd er mwyn parhau i feithrin hyder.
- Yn ddelfrydol, mae angen tawelwch llwyr er mwyn hybu canolbwyntio.
- Dywedwch wrth eich gilydd pa fath o lyfrau sydd orau gennych. Mae'n bwysig eich bod yn parchu dewis eich gilydd.
- Os yw amser yn caniatáu, gallwch wneud pethau gyda'ch gilydd - hetiau, pypedau, cacennau - i fynd gyda'ch stori.

Helpu bechgyn gyda'u darllen

Does gan rai bechgyn ddim diddordeb mewn darllen storïau, nac mewn darllen yn gyffredinol!

Yn syml iawn, mae rhai bechgyn yn gyndyn o ddarllen!

Mae'n bosibl y bydd bechgyn yn mwynhau darllen cylchgronau neu lyfrau ffeithiol.

Mae rhai bechgyn hefyd yn mwynhau chwilio am wybodaeth ar sgrin cyfrifiadur. Ni ddylid dibrisio'r darllen hwn; adeiladu arno yw'r gamp.

Dewisiadau eraill yn lle llyfrau stori

Gallwch ddefnyddio bob math o ddeunydd darllen i annog bechgyn i ymddiddori mewn darllen:

- Comic neu gylchgrawn
- Cyfarwyddiadau ar gyfer gemau cyfrifiadurol
- Amserlen rhaglenni teledu
- Papurau newydd
- Catalogau
- Y We

Os oes gan fachgen ddiddordeb mewn bywyd gwyllt, dyweder, neu'r gofod neu ffasiwn, mae llawer o lyfrau ffeithiol diddorol i'w cael gyda lluniau da ynddynt.

Os gwelwch erthygl ddiddorol mewn papur newydd, gallwch ofyn iddo ei ddarllen a holi ei farn yn ei gylch.

Mae llyfrau doniol yn debygol o ddenu bechgyn. Gallwch holi'r llyfrgellydd am gyngor wrth ddewis llyfrau addas.

Mae darllen o'n cwmpas ym mhob man



Arwyddion ffyrdd



*Papurau newydd a
Chatalogau*



Enwau siopau